Awgrymiadau Defnyddiol 4

Datblygiad Iaith

Gwella sgiliau echddygol gwael

Beth am roi cynnig ar y gweithgareddau hyn, sy'n seiliedig ar chwarae, gyda phlant ifanc sydd newydd ddechrau siarad? Efallai y byddant yn arbennig o ddefnyddiol i blant yr ymddengys eu bod am siarad ond sy'n cael trafferth i ddweud unrhyw beth yn eglur. Gall y gweithgareddau cyffredinol fod o gymorth penodol i blant sy'n ymddangos yn 'lletchwith' neu sydd â phroblemau cydsymud, ond bydd y rhan fwyaf o blant ifanc yn cael hwyl wrth eu gwneud.

Tynnu wynebau

- Tynnwch wynebau yn y drych gyda'ch gilydd a/neu at eich gilydd.
- Caneuon sy'n cynnwys ystumiau'r wyneb, er enghraifft chwythu'r bochau, gwenu fel clown, tynnu'ch tafod a cheisio cyffwrdd eich trwyn.
- Caneuon neu gemau sy'n cynnwys cymryd arnoch eich bod yn bwyta.

Gemau chwythu neu sugno

- Pêl-droed chwythu.
- Yfed drwy welltyn.
- Chwythu offerynnau cerddorol.
- Chwythu cychod ar draws y dŵr.
- Chwythu swigod.
- Sugno drwy welltyn, er enghraifft pigo darnau o bapur i fyny.

Gweithgareddau i'r tafod

- Llyfu neu gymryd arnoch eich bod yn llyfu jam neu fêl o amgylch y geg gan ddefnyddio'r tafod ac nid y gwefusau. Llyfu loli gan ddefnyddio'r tafod yn unig. Os oes angen daliwch ên y plentyn ar agor fel na all ddefnyddio'i wefus isaf a bod yn rhaid iddo ganolbwyntio ar ei dafod.

Gweithgareddau i'r gwefusau

- Caneuon sy'n cynnwys synau "î" ac "â" hir, er enghraifft "Dacw Mam yn Dŵad".
- Synau anifeiliaid, er enghraifft mae dafad yn mynd "mê".
- Gwneud printiau o'r gwefusau.

Cyffredinol

- Taflu a dal.
- Ymarferion chwarae a rhigymau bys.
- Rhoi gleiniau ar linyn.
- Copïo patrymau.
- Modelu plastisin.
- Gemau sy'n annog cydsymud rhwng y llawr a'r llygaid
- Clapio mewn amser i rythm syml.
- Pwyso ar un droed gyda'r llygaid ar gau.
- Odli - gan ddefnyddio offerynnau cerddorol.
- Pwyso i'r chwith neu'r dde

Afasic Cymru
Ystafell 203
TŷTitan
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd
Heol Lewis
Ocean Park
Caerdydd CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854
Ffacs: 029 2046 5861
Llinell gymorth: 08453 55 55 77
E-bost: jeannette@afasiccymru.org.uk
www.afasiccymru.org uk

Afasic Cymru